



YSGOL Y GELLI

Ffordd Bethel , Caernarfon ,Gwynedd, LL55 1DU

Ffôn/Phone: 01286 674847 E-bost /E-mail: AlisonHalliday@gwynedd.llyw.cymru

Pennaeth / Headteacher: Mrs. Alison Halliday B.Add

Annwyl Rieni / Warchodwyr,

16.3.2020

Rydym yn cysylltu i rannu gwybodaeth hefo chi yn dilyn canllawiau'r Llywodraeth ynglŷn â'r COVID-19 a'r hyn mae'r Ysgol yn ei wneud i amddiffyn lledaenu'r feirws.

Y sefyllfa gyfredol

- Mae'r Ysgol yn parhau ar agor nes daw canllawiau pellach gan y Llywodraeth.
- Rydym am ohirio pob cyfarfod ac ymwelwyr di-anghenraid i'r Ysgol
- Mi fydd ymweliadau sydd wedi eu trefnu yn parhau ar hyn o bryd.
- Dylai pob disgybl fynychu'r Ysgol oni bai eu bod yn sâl:
- Os oes gan eich plentyn unrhyw un o'r symptomau canlynol dylent aros adref am 7 diwrnod – gan ddilyn trefn arferol yr Ysgol o adrodd ar absenoldeb.
- Tagiad newydd a pharhaus
- Gwres uchel

Beth mae disgyblion angen ei wneud

- Golchi dwylo yn rheolaidd gyda dŵr a sebon – yn enwedig wrth gyrraedd yr Ysgol, ar ôl amser chwarae, ar ôl bod yn y toiledau, cyn ac ar ôl bwyd.
- Sicrhau eu bod yn gorchuddio eu ceg/trwyn wrth dagu neu disian (yno rhoi'r tissue neu hances yn y bin).
- Os ydynt yn teimlo'n sâl, aros adref os gwelwch yn dda.
- Osgoi cyffwrdd eu llygaid, trwyn a cheg hefo dwylo sydd heb eu golchi.

Yr hyn rydym angen i chi ei wneud

- Os ydych wedi newid eich manylion cyswllt yn ddiweddar, plis gadewch i Anti Sharon yn y swyddfa wybod cyn gynted â phosibl.
- Siaradwch hefo'ch plant am y Coronafeirws. Mae'n gyfnod pryderus a dylem sicrhau fod plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cefnogaeth.
- Yn hytrach 'na dod i mewn i'r Ysgol i basio gwybodaeth plis ffoniwch neu anfon ebost at sylw'r pennaeth.
- Dim ond dod i mewn i'r Ysgol os yw'n HANFODOL i wneud. Yno sicrhau eich bod yn golchi eich dwylo cyn ac ar ôl ymweld.

Datblygiadau i'r dyfodol

Mae'n amhosibl rhagweld beth fydd camau nesaf y Llywodraeth. Yn sicr mae'n bwysig defnyddio synnwyr cyffredin a hyblygrwydd wrth daclo'r datblygiadau. Byddwn yn parhau i fod ar agor nes daw canllawiau fel arall gan y Llywodraeth. Mae'n bosibl, wrth gwrs, i absenoldebau staff ein gorfodi ni i wneud addasiadau i'r rhediad dydd i ddydd - all cynnwys: lleihau'r diwrnod Ysgol, cau dosbarthiadau neu wneud addasiadau i wersi'r Cwricwlwm. Byddwn yn eich diweddarau unwaith cawn wybod mwy.

Diolch am eich cydweithrediad wrth ymdrin â'r mater yma.

Yn gywir,

A Halliday

Pennaeth

